**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1387
Ein cyf/Our ref JH-/01071/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Ionawr 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr ynghylch deiseb a gawsoch ar Ddarparu Cymorth Dyngarol i Gaza.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yn rhaid cael ymdeimlad newydd o frys ymhlith y gymuned ryngwladol i sicrhau cadoediad llawn a pharhaol, er mwyn dod â'r lefelau annioddefol o drais a dioddefaint i ben cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r rhoi'r gorau i drais fod yn llwyfan hanfodol ar gyfer proses wleidyddol hirdymor a phenderfynol y gallwn weithio tuag ati i sefydlu datrysiad dwy wladwriaeth yn seiliedig ar wladwriaeth Balesteiniaidd sofran ac Israel ddiogel.

Ni all fod unrhyw ddiogelwch i unrhyw un yn Israel a Phalestina heb heddwch tymor hir, sy'n deg i Israeliaid a Phalestiniaid. Rwyf wedi cwrdd ag arweinwyr Mwslimaidd o bob rhan o Dde Cymru ac wedi gwylio goleuo menorah cyhoeddus y tu allan i'r Senedd am seithfed noson Hanukkah. Mae'n amlwg bod y digwyddiadau yn Gaza ac yn Israel yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau Mwslimaidd ac Iddewig yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau hynny yn ein dwylo ni, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag Islamoffobia a gwrthsemitiaeth, er mwyn sicrhau y gall pob cymuned fyw gyda'i gilydd yng Nghymru yn heddychlon a chyda pharch at ei gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru, yn y gorffennol, wedi cyfrannu at nifer o apeliadau a gynhaliwyd gan Bwyllgor Argyfwng Trychinebau DEC ar ran 15 sefydliad dyngarol byd-eang. Rydym hefyd yn darparu cyllid i alluogi'r DEC i weithio'n fwy effeithiol yng Nghymru. Mae'r DEC yn lansio apêl ar gyfer argyfyngau megis trychineb neu argyfwng dyngarol pan fodlonir nifer o feini prawf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Un o'r meini prawf hynny yw y gall aelod-asiantaethau wario arian a godir ac maent yn credu mai dim ond cadoediad parhaol fyddai'n rhoi cyfle iddynt ddarparu'r cymorth sydd ei wir angen i'r Palestiniaid sy'n byw yn Gaza.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip